Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Dileu meini prawf ar gyfer yswiriant ar gyfer Arolygwyr Cymeradwy (WGC 004/2022)

Mae'r diwygiadau hyn yn dileu darpariaeth cynllun yswiriant o dan adran 47 o Ddeddf Adeiladu 1984.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 28 Gorffennaf 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 28 Gorffennaf 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/dileu-meini-prawf-ar-gyfer-yswiriant-ar-gyfer-arolygwyr-cymeradwy-wgc-0042022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cylchlythyr reoliadau adeiladu**

**Cyflwyniad**

**Cwmpas**

**Diwygiadau i'r Rheoliadau**

**Rhagor o wybodaeth**

**Ymholiadau**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/dileu-meini-prawf-ar-gyfer-yswiriant-ar-gyfer-arolygwyr-cymeradwy-wgc-0042022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cylchlythyr reoliadau adeiladu

**Rhif y Cylchlythyr**: WGC 004/2022

**Dyddiad cyhoeddi**: 28/07/2022

**Statws**: Er gwybodaeth

**Teitl**:

Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2022.
Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) (Arolygwyr Cymeradwy) (Cymru) 2022

**Cyhoeddwyd gan**: Colin Blick, Rheolwr Technegol Safonau Adeiladu

**Cyfeiriwyd at**:

Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (Anfonwch ymlaen at: Swyddogion Rheoli Adeiladu Awdurdodau)

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Anfonwch ymlaen at: Lleol Aelodau'r Senedd)

Cymdeithas Arolygwyr Cymeradwy Corfforaethol

CICAIR Limited

## Crynodeb

Mae hwn yn gylchlythyr yn hysbysu am ddileu gofynion adran 47 o Ddeddf Adeiladu 1984 sy'n ymwneud â chynllun yswiriant cymeradwy ar gyfer Arolygwyr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/dileu-meini-prawf-ar-gyfer-yswiriant-ar-gyfer-arolygwyr-cymeradwy-wgc-0042022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cymeradwy.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Y Tîm Rheoliadau Adeiladu
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Llinell Uniongyrchol: 0300 060 4440
E-bost: **enquiries.brconstruction@llyw.cymru**
Gwefan: **https://llyw.cymru/adeiladu-a-chynllunio**

# Cyflwyniad

Mae Gweinidogion Cymru wedi fy nghyfarwyddo i dynnu eich sylw at Reoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2022 a Rheoliadau Diogelwch Adeiladau 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) (Arolygwyr Cymeradwy) (Cymru) 2022 (gyda'i gilydd "y rheoliadau") sy'n dod i rym ar 28 Gorffennaf 2022.

Diben y cylchlythyr hwn yw:

- tynnu sylw at y diwygiadau ac esbonio'r newidiadau y maent yn eu gwneud i Ddeddf Adeiladu 1984 a Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 (O.S. 2010/2215)

# Cwmpas

Nid yw'r rheoliadau ond yn berthnasol i ofynion yswiriant ar gyfer Arolygwyr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/dileu-meini-prawf-ar-gyfer-yswiriant-ar-gyfer-arolygwyr-cymeradwy-wgc-0042022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cymeradwy sy'n gweithio yng Nghymru.

# Diwygiadau i'r Rheoliadau

## Rheoliadau Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau Cychwyn")

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Rheoliadau Cychwyn o dan Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 ("y Ddeddf"). Maent yn dwyn i rym adran 48 o'r Ddeddf o ran Cymru.

Mae adran 48 o'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau i adran 47 (rhoi a derbyn rhybudd cychwynnol), adran 51A(2) (amrywio gwaith y mae hysbysiad cychwynnol yn ymwneud ag ef) ac adran 56 (cofnodi a darparu gwybodaeth) o Ddeddf Adeiladu 1984. Effaith y diwygiadau hyn yw dileu pŵer Gweinidogion Cymru i gymeradwyo cynlluniau yswiriant a dileu'r gofynion yswiriant cysylltiedig ar gyfer Arolygwyr Cymeradwy.

## Rheoliadau Diogelwch Adeiladau 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) (Arolygwyr Cymeradwy) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau Diwygio")

Mae'r Rheoliadau Diwygio yn diwygio Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 (O.S. 2010/2215) er mwyn dileu'r rhannau sy'n nodi gofyniad, neu'n cyfeirio at yr angen i Arolygwyr Cymeradwy fod ag yswiriant o dan gynllun yswiriant cymeradwy. Diben hyn yw y gall Arolygwyr Cymeradwy gael gafael ar yswiriant ar y farchnad agored sy'n adlewyrchu'r risg a'r math o waith y maent yn ei wneud.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/dileu-meini-prawf-ar-gyfer-yswiriant-ar-gyfer-arolygwyr-cymeradwy-wgc-0042022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau Diwygio o ganlyniad i adran 48 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022.

Nid yw'r diwygiadau uchod yn dileu'r angen i gydymffurfio â gofynion yswiriant a osodir wrth gofrestru â Chofrestr Arolygwyr Cymeradwy Cyngor y Diwydiant Adeiladu.

## Rhagor o wybodaeth

**Rheoliadau Diogelwch Adeiladau 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) (Arolygwyr Cymeradwy) (Cymru) 2022**

**Rheoliadau Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2022**

## Ymholiadau

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn at:

Y Tîm Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

Ffôn: 0300 060 4440.

E-bost: **enquiries.brconstruction@llyw.cymru**

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/dileu-meini-prawf-ar-gyfer-yswiriant-ar-gyfer-arolygwyr-cymeradwy-wgc-0042022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.